

# Ydyn ni yno eto? -



# Ein hawliau ein llais.



Mae'r wybodaeth yma oddi wrth Sally Holland.



Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**



Fe wnaethon ni siarad â phlant a phobl ifanc o



Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.



Weithiau mae'r gwledydd yma yn cael eu galw yn



Deyrnas Unedig. (UK).

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

Fe ofynnon ni gwestiynau iddyn nhw am eu hawliau plant.

Hawliau plant yw'r pethau rydych chi angen i dyfu i fyny i deimlo'n hapus, yn iach, ac yn ddiogel.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



Mae hawliau plant hefyd yn gallu cael eu galw'n




Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r



Plentyn.



Weithiau byddwch chi'n gweld yr enw CCUHP.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



Rydyn ni wedi darganfod rhai pethau pwysig.



**1.** Mae yna rai pethau da wedi bod



yn digwydd ym mhob gwlad. Ond



mae gennym ni lawer i'w wella.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

**2.** Dyw llawer o bobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig ddim yn gwybod beth yw CCUHP.

**3.** Dyw rhai plant a phobl ifanc ddim yn cael eu trin yn deg. Dydyn nhw ddim yn cael pob un o'u hawliau plant.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com

  

**4.** Weithiau mae plant yn cael eu hanwybyddu




neu ddim yn cael eu cymryd o ddifri.

  

**5.** Roedd pobl ifanc yn poeni am

   

iechyd meddwl. Roedd pobl ifanc eisiau mwy

  

o gefnogaeth a gwell gofal.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



6. Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn colli'r



cyfleoedd mae plant eraill yn cael.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com

**Beth fydd Sally'n gwneud gyda'r wybodaeth?**

Bydd Sally'n rhoi'r wybodaeth i'r Cenhedloedd Unedig fydd yn dweud wrth lywodraeth y Deyrnas Unedig sut i wella.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**



Mae'r Cenhedloedd Unedig yn dweud wrth y



llywodraeth beth ddylen nhw wneud yn well



fel bod plant yn cael eu hawliau plant.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**